

Ymgynghoriad

Diolch am eich amser a'ch cydweithrediad wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r holiadur hwn.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur ynghyd â'r ymateb, gan fod hyn yn rhoi hygrededd i'r ymarfer ymgynghori.

Enw * :

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad:

Ffôn:

E-bost * :

1. A yw'r cyfarwyddyd yn egluro'n llawn yr ystyriaethau allweddol wrth ddy lunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol? A oes materion pellach y teimlwch y mae angen eu cynnwys?

Ydy, yn llawn

Ydy, i raddau helaeth

Nac ydy

Os gwnaethoch ateb 'Nac ydy', a oes materion pellach y teimlwch y mae angen eu cynnwys?:

Mae diffyg gwybodaeth yn unrhyw un o'r dogfennau o ran sut y dewisir lleoliad y safleoedd dan sylw – byddai'r problemau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn dibynnu'n gyfan gwbl ar leoliad y safleoedd h.y. safleoedd gwarchoddedig, rhywogaethau, parthau llifogydd, draenio, rheoli gwastraff, tirwedd.

Mae paragraffau 19, 35 a 35 o Gylchlythyr 2007 yn nodi'r angen i ystyried tirwedd, perygl o lifogydd a bioamrywiaeth wrth ystyried safleoedd. Fodd bynnag, ystyriwn teimlwn y dylai'r cyfarwyddyd drafft egluro ym mharagraffau 3.1 a 3.3 y dylai nifer y lleiniau a ganiateir hefyd adlewyrchu capasiti amgylcheddol h.y. perygl o lifogydd, bioamrywiaeth a thirwedd. Gallai

defnydd sylweddol o safle adael ei ôl ar asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol ar y safle ac o'i gwmpas. Mae angen ystyried sensitifrwydd asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol ar y safle ac o'i gwmpas.

Gallai draenio fod yn broblem, yn enwedig gan fod safleoedd o'r fath fel arfer y tu allan i ardaloedd lle mae system garthffosiaeth gyhoeddus. Byddai'n rhaid trin a chynnwys gollyngiadau o ddraeniau budr a chynnwys ffos gerrig neu gwrs dŵr ar eu cyfer. Gallai safleoedd gael eu cynnig o fewn dyfrhaenau mawr sy'n cynnwys cyflenwadau dŵr yfed lle na fyddai ffosydd cerrig yn dderbyniol. Gallai fod angen atal olew/petrol cyn gwaredu i gwrs dŵr/ffos gerrig.

Argymhellwn ryw fath o asesiad o sut y byddai safle Sipsiwn a Theithwyr arferol yn edrych – a fyddai'n wahanol iawn i safle carafanau teithiol er enghraifft?

Argymhellwn hefyd cyfeirio at blannu/sgrinio ffiniau, i integreiddio â'r dirwedd o gwmpas a darparu preifatrwydd. Mae modd defnyddio planhigion brodorol sy'n adlewyrchu'r ardal e.e. gwrychoedd a choed brodorol, coed perllan/ffrwythau mewn modd cadarnhaol. Mae modd ymgorffori ardaloedd 'chwarae naturiol' a dylid osgoi eangderau mawr o arwynebedd caled. Mae'n bwysig dylunio adeiladau cyfleustodau yn ystyriol a defnyddio deunyddiau naturiol e.e. o ran arwynebedd. Mae gan rai aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr brofiad o dechnegau rheoli megis plygu gwrychoedd a choedlannu. Dylid cyfeirio at ddefnyddio cynlluniau rheoli, yn enwedig ar gyfer ffiniau safleoedd, yn y cyfarwyddyd.

Nodir bod paragraffau 3.12 i 3.15 yn ymwneud â lleoliad safleoedd. Mae'r is-baragraff sy'n dwyn yr enw "y safle penodol" yn cyfeirio at y mapiau llifogydd sy'n gysylltiedig â TAN15. Argymhellwn y dylai'r paragraff hwn gynnwys..."ac asesiad canlyniad llifogydd derbyniol yn unol â TAN15". Dyma le gellid hefyd cynnwys cyfeiriad at waredu draeniau budr.

2. A ydych yn cytuno mai maint delfrydol safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol yw 12 o leiniau?



Ydw



Nac ydw

Eglurwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r maint delfrydol a argymhellir:

Dylid hefyd ystyried materion sy'n ymwneud â maint safleoedd ac estyniadau yng nghydestun agosrwydd at ffiniau aneddiadau e.e. gallai safleoedd yn ymyl aneddiadau gynnwys mwy o le ar gyfer rhagor o leiniau na'r rheini yng nghefn gwlad agored oherwydd llai o gyfyngiadau amgylcheddol, a byddai hefyd yn helpu materion cynaliadwyedd o ran lleihau'r angen i deithio mewn car.

Ystyriwn fod angen ystyried anghenion dynol sylfaenol am 'wagle amddiffynnol' wrth ganfod dwysedd darpariaeth lleiniau. Eto, gallai ymgynghori â'r cymunedau teithiol a gweld yr hyn yr ystyrir ganddynt yn safle da gynorthwyo i fesur hyn. Mae llawer o dechnegau tirwedd megis plannu, gosod waliau neu newidiadau i lefelau y mae modd eu defnyddio i gyfyngu'n


'naturiol' ar gynifer y teithwyr y byddai lle iddynt ar safle. Mewn dyluniadau 'canghennau coed' er enghraifft, gallai'r gwagleoedd rhwng y canghennau gynnwys pantau is neu fyndiau uwch, a gallant hefyd gynnwys plannu planhigion tebyg i blanhigion coedwig (hawdd eu trin, naturiolaid, rhywogaethau brodorol). Byddai hyn yn ei dro yn cyfrannu at lawer o fuddion eraill, megis y sgrinio 'clustogi' rhwng y safle ac eiddo cyfagos neu ddefnyddiau tir.

3. A ydych yn cytuno na ddylai safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd awdurdod lleol fod dros 20 o leiniau mewn maint oni bai fod rhesymau da?

- Ydw
 Nac ydw

Eglurwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cyfyngiad maint a argymhellir:

Please see answer to question 2.



4. Pa resymau (os o gwbl) y credwch y byddai'n ei gwneud yn rhesymol i greu safleoedd mwy?:

No comments.



5. A ydych yn meddwl y dylid darparu lleiafswm maint man chwarae ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd awdurdod lleol?

- Ydw
 Nac ydw

Pa faint dylai hyn fod ac am ba resymau?:

Mae CNC yn croesawu darparu mannau chwarae, er y byddai modd darparu hyn ar ymylon aneddiadau trwy wella mynediad i fannau chwarae presennol a gwella'u hansawdd o fewn/ar ymylon aneddiadau.

6. A ddylid caniatáu gweithgarwch busnes ar safleoedd preswyl parhaol?

- Dylid
- Na ddylid

Rhowch eich rhesymau dros hyn. Os cânt eu caniatáu, beth ddylid ei wneud i sicrhau y cedwir plant ac eraill ar y safle'n ddiogel?:

Ystyriwn na ddylid caniatáu gweithgarwch busnes oni bai eu bod yn gweithio o gartref heb yr angen am wagle/datblygiad pellach, ac yn unol ag unrhyw bolisi CDLI ar y mater hwn.

7. A ddylid caniatáu gweithgarwch busnes ar safleoedd tramwy?

- Dylid
- Na ddylid

Rhowch eich rhesymau dros hyn. Os cânt eu caniatáu, beth ddylid ei wneud i sicrhau y cedwir plant ac eraill ar y safle'n ddiogel?:

Ystyriwn na ddylid caniatáu gweithgarwch busnes oni bai eu bod yn gweithio o gartref heb yr angen am wagle/datblygiad pellach, ac yn unol ag unrhyw bolisi CDLI ar y mater hwn.

8. A ydych yn cytuno â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol ystyried gosod rhwystrau ar fynedfeydd safleoedd, gan gynnwys mynediad trwy god a rhwystrau cyfyngiad uchder?

- Ydw
- Nac ydw

Eglurwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad i ddefnyddio rhwystrau.:

No comment.

9. A ydych yn cytuno y dylai maint safle delfrydol Sipsiwn a Theithwyr tramwy awdurdod lleol fod rhwng 7-10 o leiniau, ac na ddylai fod yn fwy na 10 o leiniau?

- Ydw



Nac ydw

Eglurwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r maint delfrydol a argymhellir:

Dylid hefyd ystyried materion sy'n ymwneud â maint safleoedd ac estyniadau yng nghydestun agosrwydd at ffiniau aneddiadau e.e. gallai safleoedd yn ymyl aneddiadau gynnwys mwy o le ar gyfer rhagor o leiniau na'r rheini yng nghefn gwlad agored oherwydd llai o gyfyngiadau amgylcheddol, a byddai hefyd yn helpu materion cynaliadwyedd o ran lleihau'r angen i deithio mewn car..

Ystyriwn fod angen ystyried anghenion dynol sylfaenol am 'wagle amddiffynnol' wrth ganfod dwysedd darpariaeth lleiniau. Eto, gallai ymgynghori â'r cymunedau teithiol a gweld yr hyn yr ystyrir ganddynt yn safle da gynorthwyo i fesur hyn. Mae llawer o dechnegau tirwedd megis plannu, gosod waliau neu newidiadau i lefelau y mae modd eu defnyddio i gyfyngu'n 'naturiol' ar gynifer y teithwyr y byddai lle iddynt ar safle. Mewn dyluniadau 'canghennau coed' er enghraifft, gallai'r gwagleoedd rhwng y canghennau gynnwys pantau is neu fyndiau uwch, a gallant hefyd gynnwys plannu planhigion tebyg i blanhigion coedwig (hawdd eu trin, naturiolaid, rhywogaethau brodorol). Byddai hyn yn ei dro yn cyfrannu at lawer o fuddion eraill, megis y sgrinio 'clustogi' rhwng y safle ac eiddo cyfagos neu ddefnyddiau tir.



10. A ydych yn cytuno â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru y dylid darparu bloc cyfleusterau unigol ar gyfer pob llain ar safleoedd tramwy awdurdod lleol?



Ydw



Nac ydw

Eglurwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad am flocliau cyfleusterau unigol:

Dim sylwadau.

11. A ydych yn cytuno â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru na ddylai fod yn ofynnol cael trefniadau post ar gyfer safleoedd tramwy?




Ydw



Nac ydw

Eglurwch pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad nad yw'n ofynnol cael trefniadau post ar gyfer safleoedd tramwy:



12. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?:

Mae CNC yn argymhell yr ystyrir technegau i ddarparu arwyneb caled sy'n caniatáu draenio addas. Gallai fod modd lleihau'r angen am eangderau mawr o darmac neu goncrit pe byddai, er enghraifft, lleiniau ymylol yn cael eu gwneud o 'grass-crete' wedi'i atgyfnerthu neu debyg. Yn yr un modd, gallai ffyrdd a llwybrau allweddol trwy'r safle gael eu diffinio gan arwynebedd caled lle gallai lleiniau (lle mae llai o draul o ran traffig yn pasio) fod yn 'grass-crete' neu debyg.

Ein profiad yw mai'r safleoedd mwyaf llwyddiannus yw'r safleoedd bach teuluol, sy'n cael eu rheoli gan y sipsiwn/teithwyr sy'n byw ar y safle, yn aml yn agos at/ar ymylon cymunedau presennol a chyda mynediad i wasanaethau/rhan o'r gymuned, ond eu bod yn annibynnol.

Gellir cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriadau – ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os y dymunwch gadw'ch ymateb yn ddienw, ticiwch y blwch: